OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 415 (Cy.58)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*15 Chwefror 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*16 Chwefror 2011*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 13(1) a (6) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988(**1**).

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) (Diwygio) 2011, a deuant i rym ar 6 Ebrill 2011.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006(**2**).

Diwygio'r Atodlen i'r prif Reoliadau

2. Mae'r Atodlen i'r prif Reoliadau wedi'i diwygio fel a ganlyn—

(1) Yng ngholofn 1 (Categori o fwyd) o'r tabl, yn y trydydd categori, mewnosoder "neu wedi'u rhewi" ar ôl y gair "ffres"; a

(2) Yng ngholofn 2 (Goleddfiad) o'r tabl, yn lle'r trydydd goleddfiad, rhodder y canlynol—

"Ffrwythau a llysiau ffres neu wedi'u rhewi gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffrwythau neu lysiau rhydd, wedi'u rhagbacio, cyfain, wedi'u tafellu, wedi'u torri, neu wedi'u cymysgu, ond nid ffrwythau na llysiau yr ychwanegwyd atynt fraster, halen, siwgr, cyflasyn neu unrhyw gynhwysion eraill.".

(**1**) 1988 p.7. Amnewidiwyd adran 13 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 gan adran 185(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 13(1) a (6) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2006/3108 (Cy.287).